OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1756

# Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004

## RHAN V —

## AMRYWIOL

**Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002**

**37.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**1**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 3(1), ychwaneger —

"(f) os yw'r holl bersonau sy'n cael eu lletya yn y cartref yn destun cytundebau lleoli oedolion sy'n cydymffurfio â darpariaethau Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004(**2**), neu os bydd rheoliadau a wnaed yn Lloegr yn gymwys i gytundeb lleoli oedolion, â darpariaethau'r rheoliadau hynny.".

(**1**) O.S. 2002/324 (Cy.37).
(**2**) 2004/1756 (Cy.188).